



Addasiadau i asesiad cymwysterau Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau yn 2021/22

Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

Lluniwyd y cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau fel cymhwyster blwyddyn. Nid yw'n ofynnol i ddysgwyr fod wedi cwblhau cymhwyster iechyd a gofal cymdeithasol yn flaenorol. Ni ddylai'r dysgwyr hynny sy'n cychwyn ar eu cymhwyster ym mis Medi 2021 fod dan anfantais felly oherwydd unrhyw amharu y gallent fod wedi'i brofi yn ystod 2020/21.

Er mwyn ymateb i'r amharu parhaus a achoswyd gan y pandemig Covid-19 a gan ddeall bod hyn yn mynd i barhau i effeithio ar y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn 2021/22, rydym wedi addasu'r gofynion asesu ar gyfer 2021/22.

Gwerthfawrogwn yr anawsterau wrth gynllunio ar gyfer cyflwyno ac asesu yn 2021/22 mewn amgylchedd sy'n newid yn barhaus. Bydd yr addasiadau a amlinellir isod yn cael eu hadolygu'n gyson drwy gydol y flwyddyn 2021/22 ac yn cael eu diwygio os bydd y sefyllfa'n dirywio.

Addasiadau i asesiadau yn 2021/2022

Uned 1: Hybu iechyd a llesiant drwy gydol camau bywyd Arholiad allanol (40%)	<p>Does dim newidiadau i asesiad yr uned hon.</p> <p>Mae'r asesiad hwn ar gael ym mis Ionawr a Haf 2022.</p> <p>Bydd dau gyfle ar gael i ymgeiswyr ailsefyll yr uned hon. Felly mae tri chyfle i gyd gan ymgeiswyr.</p> <p>Mae'r asesiad hwn ar gael ym mis Ionawr a Mehefin 2022. Gall ymgeiswyr sy'n dymuno ailsefyll eto wneud hynny ym mis Ionawr neu Fehefin 2023.</p>
Uned 2: Iechyd a gofal cymdeithasol mewn perthynas â chefnogi darpariaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer gofal person-ganolog Asesiad di-arholiad mewnol (60%)	<p>Aseiniad 1 Does dim newid i'r aseiniad hwn.</p> <p>Bydd dewis o ddwy astudiaeth achos ar gael i ganolfannau ar y dydd Llun cyntaf ym mis Mawrth 2022.</p> <p>Aseiniad 2 Ni fydd gofyn i ymgeiswyr gwblhau Aseiniad 2: Lleoliad gwaith ac ymgysylltu â'r sector.</p>

Lleoliad gwaith

Ni fydd yn orfodol yn 2021/22 i ddysgwyr brofi lleoliad gwaith 5 diwrnod o hyd.

Bydd tynnu'r gofyniad i ddysgwyr brofi lleoliad gwaith 5 diwrnod o hyd yn lliniaru'r risg na fydd canolfannau'n gallu sicrhau lleoliadau addas.

Anogir canolfannau i ddarparu cyfleoedd i **ymgysylltu â'r sector** ar gyfer dysgwyr lle bynnag y bo hynny'n bosibl ac i ystyried darparu blociau o leoliadau gwaith yn ddiweddarach yn y flwyddyn academaidd pan fydd yn saff ac yn ymarferol gwneud hynny. Mae'r gweithgareddau hyn yn hynod o werthfawr i ddysgwyr ac yn eu cefnogi wrth symud ymlaen i ddysgu pellach. Rydym yn gwerthfawrogi fodd bynnag y bydd y gallu i gefnogi'r cyfleoedd hyn i ddysgwyr yn dibynnu ar sawl ffactor, yn eu plith parhad unrhyw amhariad oherwydd y pandemig Covid-19 a ph'un a yw cyflogwyr a chyrff eraill yn barod ac yn gallu cynnal lleoliadau.